**RHAGOLWG**

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 16 Tachwedd 2004]**

**Dydd Mawrth 23 Tachwedd a dydd Mercher 24 Tachwedd 2004**

**Dydd Mawrth 30 Tachwedd a dydd Mercher 1 Rhagfyr 2004**

**Dydd Mawrth 7 Rhagfyr a dydd Mercher 8 Rhagfyr 2004**

## Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2004

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar TB mewn Gwartheg (30 munud)**

  Trafododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar TB mewn gwartheg ar 5 Hydref 2004.

- **Hysbysiad gan y Prif Weinidog am rwymedigaeth wrth gefn o dan Reol Sefydlog 21.23 : Cais Llundain i gynnal y Gêmau Olympaidd** (30 munud)

  The notification relates to the guarantees that the First Minister has signed up to as part of the formal London Olympic bid that was made to the International Olympic

Committee last week .These guarantees represent a contingent liability that must be

notified to the National Assembly under Standing Order 21.19.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**
- **Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Bwriad y Gorchymyn hwn yw diweddaru'r rhestrau o'r Sefydliadau sy'n cynnig

cyrsiau gradd ar ran cyrff cydnabyddedig a elwir yn "Gyrff Rhestredig". Mae Gorchmynion cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban er mwyn sicrhau bod yr un wybodaeth ar gael ledled y DU**.**

- **Rheoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004**

    Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gweithredu Cyfarwyddeb 2003/100/EC y Comisiwn a wnaed ar 1 Tachwedd 2003 a Phenderfyniad 2004/217 y Comisiwn a wnaed ar 5 Mawrth 2004, ac yn darparu ar gyfer gorfodi wyth o Reoliadau'r CE i awdurdodi'r defnydd o gynhyrchion ensym a micro-organebau fel ychwanegion bwyd. Mae Cyfarwyddeb 2003/100/EC y Comisiwn yn cyflwyno'r lefelau uchaf newydd a ganiateir o sylweddau drwg (halogion) fel metalau trwm, nitradau, deuocsinau a phlaladdwyr penodol mewn bwyd anifeiliaid. Mae Penderfyniad 2004/217/EC y Comisiwn yn diwygio'r rhestr bresennol o gynhwysion gwaharddedig er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed mewn deddfwriaeth arall, ac mae'n ymestyn cwmpas y rhestr fel bod modd eu defnyddio fel deunyddiau bwyd anifeiliaid (hy ar eu pennau eu hunain) yn ogystal â'u defnyddio mewn bwyd cyfansawdd (artiffisial)

- ***Cynnig i drafod y tair eitem canlynol gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (20 munud)***

- **Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004**

    Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad i gyflwyno darpariaethau mewn perthynas â swyddogaethau awdurdod lleol a fydd yn cael eu cyflawni gan weithrediaeth yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r Rheoliadau'n pennu pa rai o swyddogaethau'r awdurdod lleol na chânt, efallai na fyddant neu na fyddant yn swyddogaethau'r weithdrediaeth yn unig (neu swyddogaethau'r bwrdd ar gyfer yr awdurdodau sydd â threfniadau amgen). Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau'r awdurdodau lleol, yn benodol ar gyfer y rhai sydd â threfniadau gweithredol. Mae eu hangen er mwyn dal eitemau penodol o ddeddfwriaeth nad oes darpariaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd, a hynny er mwyn ymateb i geisiadau gan lywodraeth leol ac i adlewyrchu bwriad polisi'r darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2003. Bydd y rheoliadau drafft hyn yn dyrannu cyfrifoldebau llywodraeth leol yn well ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd.

- **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004**

    Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad i gyflwyno darpariaethau mewn perthynas â swyddogaethau awdurdod lleol sydd â threfniadau amgen yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r

Rheoliadau'n pennu pa rai o swyddogaethau'r awdurdod lleol na chânt, efallai na fyddant neu na fyddant yn swyddogaethau'r bwrdd yn unig (neu'n swyddogaethau gweithredol ar gyfer yr awdurdodau sydd â threfniadau gweithredol). Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau'r awdurdodau lleol, yn benodol ar gyfer y rhai sydd â threfniadau amgen. Mae eu hangen er mwyn dal eitemau penodol o ddeddfwriaeth nad oes darpariaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd, a hynny er mwyn ymateb i geisiadau gan lywodraeth leol ac i adlewyrchu bwriad polisi darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003. Bydd y rheoliadau drafft hyn yn dyrannu cyfrifoldebau llywodraeth leol yn well ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd.

- **Cynnig I gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (10 munud)**

  Bwriad y Rheoliadau hyn yw caniatáu i awdurdodau lleol gyfrifo sylfaen eu treth gyngor gan ystyried y newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer disgowntiau'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2003. Byddant yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995. Yn ogystal, bwriedir iddo wneud mân newid i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998**.**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004 (10 munud)**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd, a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2005. Bydd rheoliadau tebyg yn dod i rym yn Lloegr ar yr un dyddiad. Mae'r penderfyniad yn diwygio'r amodau sy'n gysylltiedig â mewnforio cnau pistasio a chynhyrchion penodol o gnau pistasio o Iran.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

## Dydd Mercher 24 Tachwedd

- **Cwestiwn i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Motion to delegate functions of the Public Audit (Wales) Act 2004 to the First Minister (10 munud )**

This is a motion to delegate to the First Minister (as provided for by section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998) functions relating to the audit of public bodies in Wales which are devolved to the Assembly by the Public Audit (Wales) Act 2004.

- **Dadl ar Adroddiad Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Addysg Arbennig (60 munud)**

Dyma'r rhan gyntaf o'r adolygiad sydd mewn tair rhan. Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar nodi ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y rhannau dilynol yn archwilio'r broses o roi 'datganiadau' a'r problemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc ag AAA wrth iddynt fynd trwy gyfnodau gwahanol addysg statudol, ac wedyn wrth iddynt symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch a'r byd gwaith. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 13 Hydref 2004. Bwriedir lansio'r adroddiad ar 24 Tachwedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank yng Nghaerdydd.

- **Debate on the Second Offer Scheme (45 munud )**
- **Cynnig i gymeradwyo'r Datganiad ar yr Amserlen Gyfnodol (15 munud)**

Mae Rheol Sefydlog 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trefnydd gyflwyno cynigion o bryd i'w gilydd sy'n cynnig amserlenni drafft ar gyfer y cyfarfodydd llawn, yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol a thoriadau**.**

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 30 Tachwedd

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 adran 2 (1 funud)**
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 1) 2004**

> Bwriad y Gorchymyn hwn yw cael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig yn effeithiol yn y system gynllunio a rhoi cyfle i'r rhai sydd am ddefnyddio cyfrwng electronig, yn hytrach na chyfrwng papur, i wneud hynny. Serch hynny, nid yw'r Gorchymyn yn disodli'r system bresennol sy'n dibynnu ar bapur. Bydd yn parhau cyn belled ag y bo'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio am ei defnyddio. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn datganoli.

- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2004 (1 funud)**

Bwriad y Gorchymyn hwn yw cael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig yn effeithiol yn y system gynllunio a rhoi cyfle i'r rhai sydd am ddefnyddio cyfrwng electronig, yn hytrach na chyfrwng papur, i wneud hynny. Serch hynny, nid yw'r Gorchymyn yn disodli'r system bresennol sy'n dibynnu ar bapur. Bydd yn parhau cyn belled ag y bo'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio am ei defnyddio. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad ar ôl datganoli.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (10 munud)**

Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad i gyflwyno darpariaethau sy'n galluogi awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i newid y trefniadau hynny mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys newid ffurf y weithrediaeth neu newid o drefniadau gweithrediaeth i drefniadau amgen (neu i'r gwrthwyneb). Nid yw'r rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu ar gyfer newid ffurf model cyfansoddiadol y cyngor.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004 (10 munud)**

Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Addysg Uwch 2004 sy'n darparu ar gyfer system newydd i ddelio â chwynion myfyrwyr. Bydd y darpariaethau'n rhoi un system ar waith i ddelio â chwynion myfyrwyr ar ôl i'r sawl sy'n cwyno fynd trwy'r holl weithdrefnau cwyno mewnol yn y sefydliad lle mae neu lle roedd yn astudio. Mae'r Gorchymyn Cychwyn yn cychwyn darpariaethau sy'n dileu awdurdodaeth yr Ymwelydd dros gwynion myfyriwr ac sy'n caniatáu i'r Cynulliad ddynodi corff i weithredu cynllun i ystyried cwynion myfyrwyr. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer ymdrin â chwynion cyn 1 Ionawr 2005 a hefyd yn cychwyn darpariaeth i derfynu awdurdodaeth yr Ymwelydd dros gwynion staff. Rôl yr Ymwelydd yw adolygu sut y mae'r Brifysgol yn cymhwyso ei gweithdrefnau mewnol ei hun wrth fynd i'r afael â chw^yn neu apêl y deisebwr. Y Frenhines neu Arglwydd Lywydd y Cyfrin Cyngor yw'r Ymwelydd gan amlaf. Yn ymarferol, pan gyflwynir deiseb i'r Ymwelydd, bydd yr Ymwelydd yn enwebu rhywun i weithredu ar ei ran - bargyfreithiwr er enghraifft.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (40 munud)**
- **Dadl ar y Gyllideb Derfynol (90 munud)**

Bydd hon yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad nodi cyllideb derfynol y Gweinidog Cyllid ar gyfer 2005-06 a'r Cynlluniau Dangosol ar gyfer 2006-07 a 2007-08.

## Dydd Mercher 1 Rhagfyr

- **Motion to elect a Planning Decision Committee (1 min)**

  The election of a Planning Decision Committee is governed by Standing Order 17.

  The Committee will consider

- A planning appeal by Windjen Power Ltd for the construction and operation of 6 wind turbine generators and associated access tracks, construction of 1 control building; monitoring mast; temporary storage compound and borrow pits at Llethercynon Farm, Garthbrengy, Brecon, powys.
- A called in planning application by Celtic Energy Ltd for the proposed extension of an existing opencast coal site, with an on-site washery, followed by restoration and aftercare management at East Pit East, Gwaun-Cae-Gurwen, nr Ammanford.
- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wedyn dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)**

  Dadl yw hon i nodi a rhoi sylwadau ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Mesurau Seneddol newydd, a rhoi cylch gwaith y Mesurau sy'n arbennig o berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r pwyllgorau pwnc iddynt eu hystyried ymhellach ac adrodd arnynt.

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 7 Rhagfyr

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Dadl wedi'i Henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol (60 munud)**

  Diben y ddadl, yn unol â Rheol Sefydlog 21.12, yw bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol yn cyflwyno'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol i Gynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06, gerbron y Cynulliad, i'w gymeradwyo gan benderfyniad.

- **Cynnig i gymeradwyo trosglwyddo'r Prif Grwp Gwariant yn ystod y flwyddyn yn unol â Rheol Sefydlog 21 (15 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog Cyllid gyflwyno nifer o gynigion yn ystod pob blwyddyn ariannol i gael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i newid cyllidebau. Hwn yw'r cyntaf yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd y cynnig yn cwmpasu'r newidiadau sydd wedi digwydd ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r Gyllideb Atodol fis Mawrth diwethaf. Bydd manylion y newidiadau hyn yn cael eu nodi yn y tablau sydd gyda'r cynnig a'r nodiadau ategol.

## Dydd Mercher 8 Rhagfyr

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Motion to adopt the Revised Code of Practice on Public Access to Information (3rd Edition.) (60 munud )**

  The purpose of the debate is to consider a proposition for National Assembly to adopt , under Standing Order 19.2, the third edition of the Code of Practice on Public Access to Information. Whilst the Welsh Assembly Government is committed to retaining the eight principles set out in the second edition of the Code, there is a need to make detailed changes to the Code to ensure compliance with the final provisions

of the Freedom of Information Act 2000 which come into force on 1 January 2005. Also, the revised Code will apply to the Environmental Information Regulations which will be brought into force by the UK Government on 1 January 2005 and which provide much wider rights of access to environmental information

- **Dadl fer (30 munud)**